Atodiad

Cymeradwyaeth Foesegol ar Ymchwil gyda Chyfranogwyr Dynol, Deunydd Dynol neu Ddata Dynol yn Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd

Cefndir

Yn 2003, yn dilyn adolygiad o'r gweithdrefnau oedd yn bodoli eisoes gan y Brifysgol ar gyfer rheoli ymchwil ac ystyried agweddau moesegol ar waith ymchwil, penderfynwyd gan Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol y dylid mabwysiadu ymagwedd fwy cyson drwy'r Brifysgol. Er 1 Awst 2004 mae'r Brifysgol yn mynnu bod pob gwaith ymchwil sydd a wnelo ef â chyfranogwyr dynol neu ddeunydd dynol neu ddata dynol yn ddarostyngedig i adolygiad a chymeradwyaeth foesegol ffurfiol cyn gellir cychwyn ar waith o'r fath.

I bwy mae'n berthnasol?

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i holl staff a myfyrwyr Ysgol y Gymraeg sy'n ymgymryd â'u gwaith ymchwil yn eu swyddogaeth fel aelodau o Brifysgol Caerdydd. Yn achos myfyrwyr, mae'n berthnasol i waith ymchwil a wneir gan fyfyriwr sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd ar gyfer gradd yn yr Ysgol fel rhan gydnabyddedig o'i raglen radd ef neu'i rhaglen radd hi.

O ran ymchwil heb fod gan fyfyrwyr, mae polisi'r Brifysgol o adolygu a chymeradwyaeth foesegol ar ymchwil anghlinigol gyda chyfranogwyr dynol, deunydd dynol neu ddata dynol yn gymwys i bob unigolyn sy'n cynnal gwaith ymchwil o dan nawdd y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys pawb a gyflogir gan y Brifysgol, p'un ai y gwneir y gwaith oddi mewn neu oddi allan i adeiladau'r Brifysgol a phob ymchwilydd sy'n ymweld â'r Brifysgol p'un ai y'i cyflogir hwy gan y Brifysgol neu beidio, gan gynnwys pobl sy'n dal safleoedd er anrhydedd, yn cynnal ymchwil oddi mewn i'r Brifysgol neu ar ei rhan.

I ba waith ymchwil y mae'n berthnasol?

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ymdrin â phob gwaith ymchwil sydd a wnelo ef â chyfranogwyr dynol neu ddeunydd dynol neu ddata dynol. Mae'n berthnasol os yw'r gwaith ymchwil wedi ei gyllido neu heb ei gyllido a beth bynnag yw ffynhonnell y cyllid. Nid yw'r broses adolygu foesegol yn cynnwys gwaith ymchwil pan fydd y wybodaeth am y cyfranogwyr dynol yn gyhoeddus ac ar gael yn gyfreithlon e.e. gwybodaeth a gyhoeddir yn y cyfrifiad, ystadegau poblogaeth a gyhoeddir gan y llywodraeth.

GWYBODAETH AM GYFLWYNO CEISIADAU I BWYLLGOR MOESEG YMCHWIL YR YSGOL

Cyflwyniad

Cyn y gallwch gychwyn ar unrhyw brosiect ymchwil anghlinigol sydd a wnelo ef â chyfranogwyr dynol, deunydd dynol neu ddata dynol yn yr Ysgol, mae'n rhaid ichi sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol gan Fwrdd yr Ysgol (BY). Grwp o bobl yw hwn yn yr Ysgol sy'n trafod ceisiadau ymchwil ac yn penderfynu, ar dir

moesegol, a all y gwaith ymchwil fynd yn ei flaen yn ôl y bwriad. Mae cylch gorchwyl BY mewn perthynas â moeseg ymchwil yn syml: derbyn cynigion ymchwil gan fyfyrwyr a staff yr Ysgol ac ystyried unrhyw faterion moeseg a allai godi o wneud y gwaith ymchwil hwn.

Gall BY wneud tri phrif fath o benderfyniad ar y cynnig. Naill ai mae'r prosiect yn cael ei gymeradwyo fel ag y mae, neu gael ei dderbyn yn amodol ar ddiwygiadau penodol, neu gael ei wrthod. Byddwch yn cael llythyr mor fuan â phosibl ar ôl i benderfyniad gael ei wneud yn dweud wrthych beth fyddwn wedi ei benderfynu a (os

yw'n berthnasol) pham y gwnaethom y penderfyniad a beth mae'n rhaid i chi ei wneud yn awr. Ni ddylai bod unrhyw gyswllt â chyfranogwyr ymchwil cyn i chi gael cymeradwyaeth gan BY. Nodwch hefyd, os gwelwch yn dda, os bydd eich prosiect yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar ddiwygiadau penodol, NAD ydych i fwrw ymlaen i gysylltu â chyfranogwyr ymchwil tan bydd y newidiadau hyn wedi eu gwneud. Mewn rhai achosion gall BY fynnu bod y newidiadau yn cael eu cymeradwyo gan Gadeirydd BY.

Mae BY yn cynnwys aelodau amser llawn o'r staff academaidd (12), gan gynnwys Swyddog Moeseg Ymchwil yr Ysgol (Yr Athro Colin H. Williams). Ar ben hyn bydd gan BY un aelod sy'n aelod academaidd o staff Prifysgol Caerdydd ond heb fod yn aelod o'r Ysgol ac un Aelod Lleyg sydd heb fod yn weithiwr i'r Brifysgol, a bydd a wnelo swyddogaethau'r ddau â materion Moeseg Ymchwil. Yr aelod academaidd presennol sydd heb fod o'r Ysgol ei hun yw **Huw Thomas, CPLAN** a'r aelod lleyg ydyw **Dr Jeremy Evas, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.** Gall staff ymchwil eraill o'r Ysgol fynychu ar gyfer eitemau anghyfyngedig yn unig. Mae'n cwrdd yn rheolaidd, ac mae dyddiadau ei gyfarfodydd ar gael yn Swyddfa'r Ysgol a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Ysgol. Mae'n rhaid i chi gyflwyno'ch cynnig o leiaf **bythefnos** cyn dyddiad y cyfarfod nesaf. Rhaid i fyfyrwyr (Israddedig a Graddau Meistr a Addysgir) gyflwyno'u cynnig o leiaf **bythefnos** cyn cychwyn y prosiect. Dan amgylchiadau **eithriadol**, a rhwng cyfafodydd, gall Pennaeth yr Ysgol, Cadeirydd Bwrdd yr Ysgol, Swyddog Moeseg Ymchwil yr Ysgol, ynghyd â'r aelod lleyg, weithredu swyddogaethau gweithredol rhwng cyfafrodydd.

Sut mae'r Bwrdd yn penderfynu

Cawn ein cyfarwyddo ond nid ein clymu gan ganllawiau'r cyrff proffesiynol perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau moeseg ymchwil gan y Gymdeithas Gymdeithasegol Brydeinig, y Gymdeithas Ymchwil Addysgol Brydeinig, Cymdeithas Brydeinig y Gweithwyr Cymdeithasol, y Gymdeithas Seicolegol Brydeinig, Cymdeithas Brydeinig Troseddeg a chyrff proffesiynol perthnasol eraill. Ar ben hyn, cyfarwyddir ni gan egwyddorion cyffredinol ymchwil moesegol gyda chyfranogwyr dynol a chan unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir gan gyllidwyr prosiect ymchwil penodol. Ceir dolenni at y canllawiau perthnasol ar wefan RACD.

Gweithio gyda Phobl

Mae arnom eisiau gwybod a yw diogelwch a lles cyfranogwyr ymchwil yn cael ei sicrhau, bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o unrhyw faterion moesegol posibl wrth gynnal yr ymchwil a bod camau wedi eu cymryd i sicrhau dilyn arfer gorau. Rydym hefyd am ddwyn eich sylw at yr adran isod dan y teitl 'recriwtio cyfranogwyr'. Mae

hi'n bwysig dros ben fod pobl yn ymwybodol eich bod yn parchu eu cyfrinachedd a bod camau trwyadl, ble bo hynny'n bosibl, yn cael eu cymryd i gadw anhysbysrwydd.

Gweithio gyda phlant

Mae'n rhaid i chi fodloni'ch hun fod angen gwirioneddol i gynnwys plant yn yr ymchwil a'ch bod yn gallu cyfliawnhau hyn i BY.

Mae'n rhaid i chi wirio unrhyw ofynion cyfreithiol a chydymffurfio â hwy, megis gweithdrefnau fetio ar gyfer gweithio gyda phlant, cyn mynd yn eich blaen gyda gwaith o'r fath. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio gofynion cyfreithiol o'r fath a chydymffurfio â hwy.

Pan geir cydsynio gan rieni, mae'n parhau'n bwysig ceisio â chael cydsyniad go iawn gan y plentyn; a chymryd bod y plentyn yn ddigon hen i ddeall yr egwyddor hon. Ar gyfer plant hyn, byddai disgwyl fel arfer iddynt roi cytundeb wedi ei arwyddo i gymryd rhan yr fath ag oedolion. Hyd yn oed pan fydd plant yn iau, ble mae'r plentyn

yn gallu deall, dylai'r ymchwiliwr egluro wrth y plentyn fod yr hyn maent yn ei wneud yn gwbl wirfoddol ac y gallant wrthod â chymryd rhan os ydynt yn dymuno hynny.

Gweithio gydag oedolion gall fod yn agored i niwed

Mae'n rhaid i chi fodloni'ch hun fod angen gwironeddol i gynnwys oedolion gallai fod yn agored i niwed, er enghraifft rhai gydag anawsterau dysgu difrifol, a gallu cyfiawnhau hyn i BY. Dylech sicrhau eich bod wedi ymgynefino gyda'r sefyllfa gyfreithiol berthnasol ble mae bwriad cynna l ymchwil gydag oedolion na allant roi cydsyniad cyfreithiol ddilys i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil.

Pan fydd y cyfranogwr ymchwil dan sylw mewn perthynas ddibynnol â'r ymchwilydd (er enghraifft, pan fydd y cyfranogwr ymchwil yn fyfyriwr) mae'n rhaid i'r ymchwiliwr ei gwneud hi'n eglur na fydd penderfyniad i gymryd rhan neu beidio â chymryd rhan yn y prosiect yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar berthynas yr unigolyn gyda'r ymchwiliwr a bod rhaid i'r ymchwiliwr sicrhau mai felly y bydd hi. Lle bo'r cyfranogwr ymchwil dan sylw yn y ddalfa mae'n rhaid i'r ymchwiliwr ei gwneud hi'n eglur na fydd penderfyniad i gymryd rhan, neu beidio â chymryd rhan, yn y prosiect yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar sefyllfa'r unigolyn a rhaid i'r ymchwiliwr sicrhau na fydd unrhyw orfodi anffurfiol.

Ymchwilio i bobl sydd ynglyn â gweithgareddau sy'n botensial anghyfreithlon.

Cyn cychwyn ar brosiect a fydd yn cynnwys ymchwil gyda phobl sydd ynglyn â gweithgareddau sy'n botensial anghyfreithlon mae angen i chi ystyried o dan ba amgylchiadau y gallai bod rheidrwydd cyfreithiol arnoch i ddatgelu gwybodaeth am gyfranogwyr eich ymchwil. Mae angen yn benodol i chi ystyried pryd i gadw'ch data ymchwil yn ddi-enw.

Mae angen i chi hefyd ystyried o dan ba amgylchiadau y gallech chi gael eich cysylltu â'r gweithgareddau anghyfreithlon a sut byddwch yn sicrhau na fydd hynny'n digwydd.

Recriwtio cyfranogwyr

Mae athrawiaeth **cysyniad dilys** yn gweithredu yma. Hynny yw, dylai'r cyfranogwyr fynd yn rhan o'r ymchwil yn rhydd ac o'u hewyllys eu hunain a gwybod a deall beth maent yn cytuno i gymryd rhan ynddo. Dylid dweud wrthynt fod ganddynt yr hawl i dynnu'n ôl o'r gwaith ymchwil ar unrhyw adeg. Ble bynnag bo'n bosibl, dylid cynnal anhysbysrwydd a chyfrinachedd. Os yw dyluniad yr arbrawf yn mynnu bod peth twyllo bwriadol, yna, wedi gorffen yr arbrawf, dylid dweud diben yr arbrawf wrth y cyfranogwyr a pham y daliwyd gwybodaeth yn ôl neu pam y cawsant eu camarwain.

Recriwtio electronig

Mae recriwtio electronig yn dderbyniol oddi mewn i'r cyfyngiadau canlynol (rhai ohonynt wedi eu gosod gan INSERV i leihau trafnidiaeth ddiangenrhaid ar y we):

- Dylai unrhyw bostio at grwp o bobl y mae modd ei adnabod (e.e. at bob myfyriwr mewn Ysgol neu ddosbarth) fod yn fyr gan egluro'n gryno natur yr ymchwil a meini prawf cyfranogiad.
- Dylid dweud yn eglur ar y dechrau mai cais am gymorth gan ymchwiliwr yw hyn.
- Os oes gan ddarllenydd yr e-bost ddiddordeb mewn cyfranogi yna dylid gofyn iddo ef neu iddi hi gysylltu â'r ymchwiliwr yn uniongyrchol (ac nid ateb fel grwp), neu gael ei gyfeirio at dudalen ar y We ble ceir gwybodaeth am yr ymchwil.
- Ni ddylid o dan unrhyw amgylchiadau rhoi rhifau ffôn Swyddfa'r Brifysgol fel cysylltiadau ar gyfer ymchwil myfyrwyr. Ni ddylid o dan unrhyw amgylchiadau

defnyddio atodiadau ffeil gyda negeseuon grwp.
- Mae'n rhaid gofyn i Bostfeistr Gwasanaethau Gwybodaeth Prifysgol Caerdydd am ganiatâd i anfon negeseuon e-bost at gyfeiriadau gr wp. Yn ogystal â chydymffurfio ag egwyddorion amddiffyn data bydd hyn hefyd yn ddull o fonitro'r defnydd ar e-bost ar draws y campws ar gyfer ymchwil o'r math hwn. Dylai'r ymchwiliwr sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag egwyddorion amddiffyn data wrth ddefnyddio gwybodaeth bersonol.

Materion i'w Hystyried wrth Roi Gwybodaeth i Ddarpar Gyfranogwyr Potensial

O bell ffordd y nifer fwyaf o ddiwygiadau y gofynnir gan adolygwyr moeseg ymchwil am iddynt gael eu gwneud yw rhai ynghylch y wybodaeth a roddir i gyfranogwyr. Mae'n rhaid i chi gymryd amser â'r agwedd hon ac mae'n hanfodol egluro beth rydych yn gofyn i bobl ei wneud a'r goblygiadau posibl fel gallant wneud penderfyniad cywir drostynt eu hunain a ydynt yn dymuno cymryd rhan.
Mae'n rhaid i chi egluro'n glir y materion canlynol mewn termau y bydd rhywun cyffredin, yn hytrach nag arbenigwr yn eich maes, yn eu deall:
- eich bod yn eu gwahaodd i gymryd rhan mewn prosiect ymchwil

- pwy ydych chi – myfyriwr/eich rôl yn y Brifysgol
- natur, peryglon (os oes rhai), buddiannau (os oes rhai), hyd a diben y prosiect ymchwil. Mae'n rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth eglur am beth y gofynnir i'r cyfranogwr ei wneud, ble cynhelir yr ymchwil, unrhyw beryglon iechyd a diogelwch y cyfranogwr a'r camau a gymerir i leiafsymu'r peryglon hynny
- bod cymryd rhan yn y prosiect yn gwbl wirfoddol
- os yw'r prosiect yn cael ei gyllido (ac os ydyw, gan bwy)
- at beth y bwriedir y wybodaeth a gesglir, gan gynnwys a oes bwriad cyhoeddi'r canlyniadau
- y trefniadau ynghylch cyfrinachedd y wybodaeth, a chael mynediad ati, a'r cyfranogwr yn yr ymchwil
- sut gall cyfranogwr yr ymchwil gael mwy o wybodaeth am y prosiect (drwy roi rhifau/e-bost cyswllt gwaith i'r ymchwiliwr; ni ddylid rhoi rhifau cyswllt cartref na rhifau swyddfa yn y brifysgol lle mae'r ymchwiliwr yn fyfyriwr.)
- pwy y gall y cyfranogwr gysylltu ag ef os oes ganddynt bryder am unrhyw agwedd ar sut cynhaliwyd yr ymchwil. Fel arfer Cadeirydd BY fyddai hwn.

Dylech roi copi o'r daflen wybodaeth i'r cyfranogwr ymchwil gael ei gadw.

Ffurflenni Cydsynio

Fel arfer disgwylid i gyfranogwyr ymchwil a gynigir gael gofyn iddynt roi eu caniatâd yn ysgrifenedig ar ffurflen gydsynio. Yn ddelfrydol, dylai'r daflen wybodaeth fod ar wahân i'r ffurflen gydsynio a bydd BY yn dymuno gweld copi o'r ddwy. Dylech sicrhau bod y darpar gyfranogwr wedi cael cyfle i ddarllen y daflen wybodaeth a holi cwestiynau am yr ymchwil cyn iddo roi cysyniad ysgrifenedig. Am y rheswm hwn, rhaid rhoi digon o amser rhwng y cais i gymryd rhan ac arwyddo'r ddogfen, oni bai bod rhesymau penodol pam na ellir gwneud hyn. Fel arfer nid oes angen tystion i lofnodion cyfranogwyr.
Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd yn ddianghenrhaid neu'n amhriodol ceisio cael cydsyniad ysgrifenedig er bydd angen cyfiawnhau hyn yn amlwg i BY. Er enghraifft, mewn achosion ble byddwch, yn rhannu holiaduron na fyddant yn holi cwestiynau treiddgar a'i bod yn eglur o'r wynebddalen beth sy'n mynd i gael ei ofyn yna gallwn gymryd bod y weithred o dderbyn yr holiadur yn awgrymu cydsyniad gan yr ymatebydd. Gallai fod sefyllfaoedd eraill hefyd ble byddai cynnig taflen wybodaeth yn ddigon.

Pan na cheisir cydsyniad ysgrifenedig, am reswm da, mae'n rhaid i chi ddal i sicrhau eich bod wedi rhoi digon o amser i gyfranogwyr yr ymchwil a gynigir gael darllen y wybodaeth am yr ymchwil a holi cwestiynau.

Cyfrinachedd gwybodaeth a geir yn ystod ymchwil

Mae'n rhaid i chi ymgynefino â'r gofynion cyfreithiol presennol ynghylch cadw data a chael gafael ar ddata am gyfranogwyr ymchwil, a rhaid i chi gydymymffurfio â hwy. Mae'n rhaid i chi ystyried y dull o gadw data personol am gyfranogwyr ymchwil a sut mae anhysbysu gwybodaeth amdanynt, ble bo'n briodol.

Talu i Gyfranogwyr Ymchwil

Os bydd pobl sy'n cymryd rhan yn eich ymchwil i gael cynnig unrhyw daliad neu gymhelliad i wneud hynny a fydd yn fwy na threuliau addas, rhaid i chi egluro hyn yn eich cais. Bydd yn rhaid i unrhyw ffurf o daliad neu gymhelliad i gymryd rhan gael ei gyfiawnhau'n eglur i BY.

Rhoi gwybod i Gyfranogwyr Ymchwil am Ganlyniadau Ymchwil

Anogir chi i ystyried y mater o roi gwybod i gyfranogwyr ymchwil am ganlyniadau'r ymchwil neu ble gallant gael gafael ar y wybodaeth honno, er efallai na fydd modd rhoi eu canlyniadau unigol i gyfranogwyr ymchwil. Mae cymryd rhan mewn ymchwil anghlinigol yn fater gwirfoddol sydd angen ewyllys da ar ran y gymuned ac mae'n briodol i gyfranogwyr ymchwil gael adborth ar ymchwil maent wedi bod yn ei gylch ble bo hynny'n bosibl.

Iechyd a Diogelwch

Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r mesurau iechyd a diogelwch perthnasol, yn unol â pholisi'r Brifysgol a gofynion yr Ysgol, mewn perthynas â chynnal yr ymchwil. Dyma gyfeiraid gwefan polisïau iechyd a diogelwch y brifysgol: http://www.caerdydd.ac.uk/osheu/index.html

Gnweud cais i Fwrdd yr Ysgol os ydych yn aelod o'r staff neu'n fyfyriwr M.Phil. / Ph.D.

Mae pum cam wrth baratoi cais ar gyfer BY. Y rhain yw:

1. Trafod unrhyw faterion moesegol sydd gennych ynghylch cynnal eich ymchwil gyda'ch cyd-ymchwiliwr/cyd-ymchwilwyr a/neu'ch goruchwyliwr/goruchwylwyr.
2. Paratoi'ch cais. Defnyddiwch y **profforma staff** a geir ar wefan yr Ysgol ar gyfer eich cynnig.
3. Atodi yr HOLL ddogfennau angenrheidiol.
4. Llofnodi a dyddio'r ffurflen a gofyn i unrhyw gyd-ymchwiliwr/goruchwyliwr ei harwyddo.
5. Cyflwyno dau gopi o'ch cais i ysgrifennydd BY neu anfon set yn electronig.

Gwneud cais i Fwrdd yr Ysgol os ydych yn Israddedig neu'n fyfyriwr Gradd Meistr

Mae pedwar cam wrth baratoi cais i BY. Y rhain yw:

1. Trafod unrhyw faterion moesegol sydd gennych ynghylch cynnal eich ymchwil gyda'ch goruchwyliwr/goruchwylwyr.
2. Cwblhau'r **profforma myfyriwr** a geir ar wefan yr Ysgol ar gyfer eich cais.
4. Llofnodi a dyddio'r ffurflen a gofyn i'ch goruchwyliwr arwyddo datganiad y goruchwyliwr.
5. Cyflwyno copïau o'ch cais i ysgrifennydd BY neu anfon set yn electronig.

Cyfarfod Bwrdd yr Ysgol

Fel arfer ni fydd BY yn cyfweld yr ymchwilydd nac yn gofyn iddynt fod yn

bresennol pan ystyrir y cais, er y gall wahodd yr ymchwilydd i fynychu os credir y byddai hynny o gymorth i BY. Gall yr ymchwilwyr hefyd wneud cais i gael siarad gerbron BY. Mae'n rhaid i aelodau BY dynnu'n ôl pan ystyrir unrhyw gais y maent hwy yn ymchwilwyr ynddynt neu'n oruchwylwyr arnynt.

Grymoedd Bwrdd yr Ysgol

Gall BY:

- awdurdodi i'r gwaith ymchwil fynd yn ei flaen heb ofyn am unrhyw ddiwygio. Rhoddir awdurdod o'r fath ar sail fod y prosiect yn mynd rhagddo fel a nodir ar y cynnig ymchwil. Rhaid hysbysu BY o unrhyw newidiadau o ran sylwedd a rhaid cael caniatâd o'r newydd cyn bwrw ymlaen;
- ofyn am eglurhad neu newidiadau ar rannau o'r cynnig ymchwil. Yn gyffredinol rhoddir yr awdurdod i'r Cadeirydd neu Swyddog Moeseg Ymchwil yr Ysgol gymeradwyo'r diwygiadau heb fod angen galw cyfarfod llawn arall o BY;
- gohirio ystyried cynnig i gyfarfod canlynol os bydd angen newidiadau sylweddol neu pan fydd angen gwybodaeth ychwanegol arwyddocaol;
- gwrthod y cais ymchwil yn gyfan neu'n rhannol;
- cyfeirio myfyrwyr neu staff y brifysgol at Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol os bydd achosion pryder yn codi o sut cynhelir yr ymchwil. .

Fel rhan o'u cymorth i ymchwilwyr, bydd BY fel arfer yn rhoi rhesymau dros fynnu newidiadau ar gynigion, eu gwrthod neu ddirymu cymeradwyaeth.

Gall BY alw am adroddiadau ar sut cynhelir yr ymchwil yn ystod prosiectau ac ar ôl eu cwblhau i gorthwyo BY wrth ffurfio ei ganllaw ac fel gall BY gael sicrwydd

fod prosiectau yn parhau i gydymffurfio â safonau moesegol a gymeradwyir. Ni fydd hyn mewn unrhyw ffordd yn lleihau cyfrifoldeb yr ymchwiliwr i sicrhau cydymffurfio o'r fath.

Bydd BY yn cadw cofnod o bob prosiect ymchwil a gynigir, a gall fynnu adroddiad ffurfiol wedi i'r prosiect gael ei gwblha u er mwyn adolygu canlyniad yr ymchwil.

Apeliadau

Os byddwch yn anfodlon ar y penderfyniad a wnaed gan BY dylech yn y lle cyntaf drafod hyn gyda Swyddog Moeseg Ymchwil yr Ysgol. Os nad yw trafod yn datrys y mater yn foddhaol gellir gwenud apêl yn erbyn penderfyniad BY i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol drwy BY a Phennaeth yr Ysgol. Fodd bynnag, dylid nodi na fydd Pwyllgor Moeseg y Brifysgol fel arfer yn ymyrryd â phenderfyniad BY i ofyn am adolygiadau o'r prosiect, megis diwygio taflen wybodaeth neu ffurflen gydsynio. Mae a wnelo Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn unig ag egwyddorion cyffredinol cyfiawnder naturiol, rhe symoldeb a thegwch y penderfyniad a wneir gan BY.